# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

**Cofnodion y Cyfarfod:**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Trafndiaeth Gyhoeddus |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14.12.21 |
| **Lleoliad:** | Cynhaliwyd drwy Zoom |

**Yn bresennol:**

| **Aelodau o'r Senedd:** | |
|---|---|
| **Enw** | **Plaid** |
| Carolyn Thomas (Cadeirydd) | Llafur |
| Natasha Asghar | Ceidwadwyr |
| Altaf Hussain | Ceidwadwyr |
| Eleri Griffiths (yn cynrychioli Heledd Fychan AS) | Plaid Cymru |

| **Unigolion Allanol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** | **Swydd** |
| Joshua Miles | CPT Cymru | Cyfarwyddwr (Ysgrifenyddiaeth) |
| Jo Foxall | PTI Cymru | |
| Scott Pearson | Newport Transport | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| David Beer | Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru | Uwch Reolwr Cymru |
| Colin Thomas | Newport Transport Ltd | Rheolwr Masnachol a Phrosiectau |
| Jane Reakes-Davies | First Cymru Buses Ltd | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Lee Robinson | Trafnidiaeth Cymru | Cyfarwyddwr Gogledd Cymru (Bysiau) |
| Christine Boston | Sustrans | Cyfarwyddwr |
| Barclay Davies | Defnyddwyr Bysiau Cymru | Cyfarwyddwr |
| Cyngh William Powell | Ffocws ar Drafnidiaeth | Aelodau'r Bwrdd |
| Kaarina Ruta | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | |
| Sian Donovan | Pedal Power | |
| Peter Kingsbury | Rail Future | |

| | | |
|---|---|---|
| Rhiannon Jane-Raftery | Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol | |
| Rhiannon Hardiman | Living Streets | Rheolwr yng Nghymru |
| Lewis Brencher | Trafnidiaeth Cymru | Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| Peter Daniels | Cyngor Sir Ddinbych | |
| Chris Cheek | 2FM | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Henry Davies | Swyddfa Huw Irranca-Davies | |
| Richard Cope | ATCO | Cadeirydd |
| Richard Hoare | Bws Arriva Cymru | |
| Chris Owens | Alpine Travel | |
| Martin Murphy | Uno'r Undeb | |
| Eleri Griffiths | Yn cynrychioli Heledd Fychan AS | |

**Ymddiheuriadau:**

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Heledd Fychan | Plaid Cymru |
| Huw Irranca-Davies AS | Llafur |
| Llyr Huws Gruffydd | Plaid Cymru |

**Crynodeb o'r cyfarfod:**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ac esboniodd bwysigrwydd y materion i'w trafod gyda'r grŵp, ac amlygodd yn benodol bwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus i'r economi ac i gymdeithas yng Nghymru.

Cyflwynodd y Cadeirydd y ddau siaradwr ar gyfer y drafodaeth. Y cyntaf i wneud cyflwyniad oedd David Beer o Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru. Rhoddodd David ddata o ran gwasanaethau bysiau a threnau a gasglwyd gan y sefydliad.

Tynnodd David sylw at y pryderon oedd gan deithwyr am iechyd cyhoeddus, a sut roedd hyn yn achosi peth petruster o ran defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Nododd ymhellach fod canlyniadau'r arolwg yn dangos y byddai'r petruster hwn yn duedd hirdymor, a bod tystiolaeth am ostyngiad yn y gyfradd o ddefnyddwyr bysiau a oedd arfer â defnyddio bws 5 gwaith neu ragor yr wythnos cyn y pandemig, o 26 y cant i 19.6 y cant ar ôl y pandemig. O ran y rheilffyrdd, awgrymodd 15 y cant o ymatebwyr yr arolwg na fyddent yn defnyddio rheilffyrdd yn y dyfodol.

Roedd ystadegau David hefyd yn dangos bod Cymru ar ei hôl hi o gymharu â'r Alban a Lloegr o ran faint o deithwyr a oedd yn dychwelyd. Ychwanegodd mai'r ffactorau allweddol i fynd i'r afael â nhw oedd; rhoi sicrwydd i gwsmeriaid ei bod yn ddiogel i ddychwelyd, egluro sut yr ymdrinnir

â gorlenwi, gwneud trefniadau glanhau yn weladwy, atgyfnerthu’r neges o ran rheolau Covid-19 a negeseuon cyfoes a chyson.

Chris Cheek oedd y nesaf i wneud cyflwyniad, ac roedd ef yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd gwasanaethau bws yn y dyfodol. Esboniodd y tybiaethau sy'n sail i'w fodel, a'r ffynonellau data a ddefnyddiodd. Tynnodd sylw at newidiadau allweddol mewn rhai meysydd, er enghraifft, effaith gweithio gartref ar batrymau teithio i’r gwaith, y newid i siopa ar-lein sy’n arwain at lai o deithiau siopa, a rhagor o addysgu ar-lein sy’n lleihau’r galw o ran myfyrwyr.

Mae’r model a gyflwynir yn awgrymu y bydd y galw yn adfer i 89 y cant y lefelau cyn Covid-19 erbyn diwedd 2023, ac mae’n debygol o aros ar y lefelau hyn tan 2030 heb unrhyw ymyriadau eraill. Byddai hyn yn gofyn am newidiadau i lwybrau ac amlder, i fod yn gynaliadwy. Ei awgrym ef oedd mai newid moddol oedd y ffordd orau o ddylanwadu yn hyn o beth, a chanolbwyntio ar fuddsoddi mewn seilwaith, ar sicrhau gweithredwyr bysiau arloesol a deinamig sy’n ymateb i dwf, a fflyd sy’n gwaredu llai o allyriadau.

Diolchodd y cadeirydd i'r cyflwynwyr a gwahoddodd bawb i ofyn cwestiynau. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio’n bennaf ar ymyriadau sy’n cefnogi teithwyr i ddychwelyd, fel y cynlluniau bysiau am ddim yn Abertawe a Chasnewydd, a theithio am bris gostyngol yng Nghaerdydd. Amlygwyd bod mynd i'r afael â thagfeydd traffig, ac ailddyrannu gofodau hefyd yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu. Ystyriwyd bod marchnata rhagweithiol yn allweddol, a byddai hwn yn destun un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol hwn yn y dyfodol.

Cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog, i grynhoi’r data a’r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod.